

Cyngor Cymuned Llanfrothen
COFNODION CYFARFOD IONAWR 2020
6 Ionawr 2020 7.30 Canolfan Gymdeithasol Llanfrothen

1. Presennol

Dafydd Watts, Rhydwen Roberts, Nia Povey, Glyn Griffiths, Llio Griffiths, Richard Jones

Clerc: Huw Rowlands

Ymddiheuriadau: Dim

2. Datgan Diddordeb

Dim

3. Cadarnhau Cofnodion

Cytunwyd fod angen ychwanegu y manylion canlynol i gofnodion cyfarfod Tachwedd 2019:-

- Cytundeb mewn egwyddor i brynu polisïau gan Un Llais Cymru
- Rhoi rhif sic ar bob anfoneb a llofnod llofnodai'r sic
- Cytuno i ddirprwyo penderfyniadau ar geisiadau cynllunio fesul cyfenw

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod arbennig 18 Tachwedd 2019

4. Materion yn codi o'r cofnodion

4.1 13 Garreg Frech

Cafwyd ymateb gan Gyngor Gwynedd. Roedd yr ymateb yn cyfeirio at fwriad Cyngor Gwynedd i erlyn y perchennog am y ddyled treth cyngor sydd ar yr eiddo, ac os yw hynny'n llwyddiannus, cael gorchymyn arwystlo ar yr eiddo i'w werthu.

Ni chafwyd unrhyw gyfeiriad at ddefnyddio'r ddeddfwriaeth tai gwag i adfeddiannu'r eiddo. Mynegwyd cryn siom am hyn a'r ffaith nad oedd arweinydd Cyngor Gwynedd wedi cydnabod nag ymateb yn uniongyrchol i lythyr y Clerc oedd wedi ei gyfeirio ato.

Cafwyd ymateb gan swyddfa Dafydd Elis-Tomos A.C. oedd yn cyfeirio at ymchwiliad ac adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y Cynulliad i eiddo gwag, ac a drafodwyd mewn Cyfarfod Llawn o'r Cynulliad ar 4 Rhagfyr 2019.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Arweinydd Cyngor Gwynedd a'r Prif Weithredwr, yn rhoi 14 diwrnod iddynt ymateb, ac yn benodol ar y defnydd o'r Ddeddfwriaeth eiddo gwag, ac os nad oedd ateb ar hyn, i ddweud y bydd y cyngor cymuned yn

gwneud cwyn swyddogol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am gamweinyddu a diffyg Cyngor Gywnedd i ddelio â'r mater.

4.2 Mynwent Tan Lan

Gofynnwyd i'r Clerc ofyn i adran gynllunio Parc Cenedlaethol Eryri pryd y byddant ar gael yn ystod y dair wythnos i gael cyfarfod, er mwyn gweld a fydd yna unrhyw ofynion cynllunio wrth ddatblygu'r fynwent.

4.3 Y Ganolfan, Llanfrothen

Gofynnwyd i'r Clerc drefnu cyfarfod efo cynrychiolydd o adran eiddo Cyngor Gwynedd a swyddog adfywio'r cyngor er mwyn trafod dyfodol Y Ganolfan.

Eglurodd y Cynghorydd Llio Griffiths ei bod wedi cael cyngor gan Un Llais Cymru am is-osod Y Ganolfan. Byddai angen sicrhau yn gyntaf fod y les yn caniatáu hyn, ac yna gweld os oes angen caniatad cynllunio am newid defnydd.

Os nad yw hi'n bosibl is-osod Y Ganolfan, yna gall y byddai'n bosibl llogi'r Ganolfan, a byddai Un Llais Cymru yn fodlon cael cyngor gan eu cyfreithwyr ar hyn.

Mae enw'r Cynghorydd Rhydwen Roberts fel cyn-yymddiriedolwr o'r Ganolfan yn parhau i fod ar gofrestr y Comisiwn Elusennau. Mae'n debyg fod enw pob ymddiriedolwr arall wedi eu tynnu i ffwrdd flynyddoedd yn ôl, ac felly mae angen ysgrifennu eto i'r Comisiwn Elusennol i ofyn i'w henw gael ei thynnu.

Mae pibell haearn yng nghefn Y Ganolfan yn beryglus, ac fe gytunodd y Cynghorydd Glyn Griffiths weld a fyddai Tomi sgrap yn ei gwaredu am ddim.

4.4 Ail wynebu'r llwybr y tu cefn i 10 Morfa Gaseg.

Mae Cyngor Gywnedd wedi amserlennu gwneud y gwaith yn ystod Ionawr 2020.

4.5 Materion Ymddiriedolaeth Portmeirion

Trafodwyd y copi o ddogfennaeth y gofrestrfa dir gyda'r rhif teitl CYM504017 a ddanfonodd Balfours er mwyn ceisio penderfynu pwy oedd berchen y tir.

Disgrifir y tir fel "Land at The Smithy, Llanfrothen", ond doedd neb yn hollol siwr pwy oedd ei berchen. Penderfynwyd gofyn i Balfours am fwy o fanylion.

4.6 Goryrru Llanfrothen

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu eto at Gyngor Gwynedd er mwyn trefnu ail gyfarfod rhyngddynt a rhai o'r cynghorwyr i drafod problem goryrru yn Llanfrothen.

4.7 Cyfethol Aelod

Gosodwyd Rhybudd ar hysbysfwrdd siop Llanfrothen yn rhoi cyfle i etholwyr ofyn am etholiad os oes o leiaf 10 yn gofyn am hynny. Mae'r dyddiad i ofyn am etholiad yn dod i ben ar 7 Ionawr.

Bydd Cyngor Gywnedd yn cysylltu â'r Clerc i ddweud a fu yna ofyniad am etholiad ai peidio.

Os na fu yna ofyniad am etholiad, gellir hysbysebu'n lleol am fynegiant o ddiddordeb i lenwi'r ddwy sedd wag drwy gyfethol.

4.8 Ceisiadau am grantiau i Barc Cenedlethol Eryri

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Parc unwaith eto er mwyn gweld os oedd ganddynt amserlen fwy pendant bellach o ran ystyried ceisiadau grant.

5. Gohebiaeth

- Gwyl Celf Calon Gwynedd
- Tai Teg
- Cysylltwr Cymunedol Gogledd Meirionnydd

Mae Gwyl Gelf Calon Cymru yn gofyn am gyfraniad ariannol. Penderfynwyd ystyried y cais yng nghyfarfod mis Mawrth.

6. Materion Ariannol

6.1 Cyflog Clerc, Tachwedd 2019 £214.00, Rhagfyr 2019 £214.00

6.2 TWE Tachwedd 2019 £53.40, Rhagfyr 2019 £53.40

6.3 Anfoneb Kerr – agor bedd £450

6.4 Casglu Gwastraff Gardd o'r Fynwent, Cyngor Gwynedd, 2020 - £35

6.5 Anfoneb Cambrian News - £288 – ad-dalu'r Clerc

6.6 Cyfrif Banc HSBC

Mae'r Clerc wedi derbyn datganiadau banc gan HSBC ers 5 Rhagfyr 2019. Mae yna dri cyfif banc

Fodd bynnag, er fod dogfen yn awdurdodi llofnodai wedi ei ddanfon at HSBC yn unol â'u cyfarwyddiadau, cafwyd llythyr yn dweud fod y mandad yn fersiwn anghywir, a bod angen cwblhau fersiwn arall.

6.7 Praesept 2020/21

Ystyriwyd papur y Clerc ar y Praesept. Mae gofynion ariannol y cyngor yn fwy na swm y praesept, ond fod ffioedd claddu yn incwm ychwanegol.

Mae Un Llais Cymru wedi cadarnhau fod praesept y cyngor cymuned yn un o'r rhai isaf yng Nghymru, ac y dylai'r praesept adlewyrchu gofynion ariannol y cyngor cymuned.

Penderfynwyd codi'r Praesept £1,000 i £8,300. Bydd hyn yn gynydd o £4.44 y flwyddyn ar fil treth eiddo Band D yn lleol.

7. Ceisiadau Cynllunio

Dim

8. Materion Eraill

8.1 Biniau Halen

Mae Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau eu bod am lenwi pob bin halen yn ward Llanfrothen. Mae'r Clerc i ofyn am restr gyfredol o'r biniau gan Gyngor Gwynedd, a sicrhau fod unrhyw un sydd wedi ei ddifrodi wedi cael un newydd wedi ei osod yn ei le.

8.2 Maes Chwarae Garreg Frech

Mae Cyngor Gwynedd wedi ysgrifennu i holi a fyddai gan y cyngor cymuned ddiddordeb i gymryd cyfrifoldeb dros faes chwarae Garreg Frech.

Penderfynwyd fod angen mwy o fanylion o ran offer y maes chwarae a'r costau cynnal a chadw cyn rhoi ystyriaeth bellach, ond yn gyffredinol y farn oedd y byddai cymryd unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol yn faich ychwanegol o ran amser ac arian ar y cyngor cymuned.

8.3 Paratoi ar gyfer Archwiliad 2019/20

Cafwyd ymateb gan Swyddfa Archwilio Cymru yn dilyn cyfarfod 9 Rhagfyr ble y cymeradwyd eu hargymhellion. Cytunwyd ar ddrafft i'w ddanfon i'r Cambrian News yn cadarnhau fod y cyngor cymuned wedi derbyn yr adroddiad a'r argymhellion a gyhoeddwyd gan yr archwilydd cyffredinol ym mis Hydref 2019.

Penderfynwyd neilltuo cyfarfod mis Chwefror i drafod paratoi ar gyfer archwiliad 2019/20, onibai fod yna faterion byrs yn codi.

9. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Chwefror 3 2020.

Arwyddwyd.....

Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanfrothen

Dyddiad.....

